# Datganiad Ysgol
# Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

### Trosolwg Ysgolion

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Bryn y Môr |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 310 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | * |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 05.06.2026 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | 05.6.22027 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Elin Wakeham |
| Yn arwain ar y GDD | Rebecca Harris Jenkins |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Rhodri Evans |

## Trosolwg Cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £ 23,186 |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £1,425,568 |

## Rhan A: Cynllun Strategaeth

### Datganiad o fwriad

| |
|---|
| Datganiad o Fwriad<br>Ein nod yn Ysgol Bryn y Môr yw sicrhau bod pob disgybl sy'n gymwys i'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael mynediad cyfartal at bob agwedd o fywyd ysgol, ac yn cyrraedd eu potensial llawn, waeth beth fo'u cefndir economaidd.<br><br>Rydym yn anelu i leihau effaith tlodi drwy:<br><br>• sicrhau mynediad llawn at brofiadau cyfoethog y cwricwlwm<br>• cefnogi lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion<br>• gwella safonau darllen a chynnydd academaidd<br>• cryfhau partneriaethau gyda theuluoedd<br><br>Mae ein strategaeth yn cyfuno ymyraethau wedi'u targedu (e.e. ELSA, cefnogaeth darllen), datblygu gallu staff drwy hyfforddiant arbenigol, a chydweithio'n effeithiol gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol.<br><br>Ein prif egwyddorion yw:<br><br>• cynhwysiant<br>• tegwch<br>• ymyrryd cynnar<br>• defnyddio tystiolaeth i lywio darpariaeth |

### Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

### Canlyniadau a Fwriedir a Meini Prawf Llwyddiant

| Canlyniad a Fwriedir | Meini Prawf Llwyddiant |
|---|---|
| Lleihau effaith tlodi ar ddisgyblion | 100% o ddisgyblion cymwys yn cael mynediad at holl weithgareddau a phrofiadau'r ysgol; dim rhwystrau ariannol i gyfranogiad; adborth cadarnhaol gan ddisgyblion a staff |
| Gwella cynnydd academaidd | O leiaf 85% o ddisgyblion cymwys yn gwneud cynnydd yn unol â'u targedau unigol; gwelliant mewn sgiliau darllen; lleihau'r bwlch rhwng disgyblion FSM a'u cyfoedion |
| Gwella lles ac ymgysylltiad | Lleihad mewn ymddygiadau heriol; gwell presenoldeb; cynnydd mewn hyder a hunan-barch yn ôl arsylwadau staff |

## Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i:

- gefnogi costau teithiau addysgol a phreswyl i sicrhau mynediad cyfartal
- darparu adnoddau darllen (e.e. Rapid Phonics) ar gyfer defnydd yn yr ysgol a gartref
- cynnal rhaglenni ELSA a darpariaeth lles emosiynol
- defnyddio staff ychwanegol i gefnogi darpariaeth gynhwysol

## Dysgu ac addysgu

**Cost: £20,000**

| Gweithgaredd | Tystiolaeth |
|---|---|
| Hyfforddi staff mewn Emotional Coaching a Therapeutic Play | Ymchwil yn dangos effaith gadarnhaol ar ymddygiad a lles; arsylwadau ysgol yn dangos gwell ymgysylltiad a rheolaeth emosiynol |
| Cyflogi cynorthwyydd addysgu ychwanegol | Cefnogaeth wedi'i thargedu yn cyflymu cynnydd; data ysgol yn dangos cynnydd gwell ymhlith disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth; mwy o gynnwys mewn dysgu |
| Darpariaeth Ysgol Goedwig | Mae dysgu awyr agored, profiadol yn cefnogi lles, gwydnwch ac ymgysylltiad disgyblion. Mae tystiolaeth o arsylwadau ysgol yn dangos gwell hyder, sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth ymhlith disgyblion sy'n cymryd rhan. Mae cyfleoedd Ysgol Goedwig hefyd yn cefnogi rheolaeth emosiynol ac yn darparu amgylchedd cynhwysol lle gall dysgwyr bregus ffynnu ac ail-ymgysylltu â dysgu |

## Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £ *1000*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Darparu swyddog cefnogi teulu | Cryfhau perthynas gyda theuluoedd; cynnydd mewn ymgysylltiad rhieni; gwell presenoldeb a lles disgyblion; cydweithio effeithiol gyda gwasanaethau megis Early Help Hub |

### Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £ *2186*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth |
|---|---|
| Arweinydd cynhwysiant yn goruchwylio'r strategaeth GDD | Sicrhau cysondeb a monitro effeithiol; defnyddio data i adnabod anghenion yn gynnar; gwella effaith ymyriadau; sicrhau gwerth am arian |

Cyfanswm cost y ceisiadau: £ 23,186

## Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

### Canlyniadau'r GDD - Effaith y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r ysgol wedi defnyddio'r GDD yn strategol i dargedu anghenion disgyblion sy'n gymwys, gan sicrhau bod ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu monitro'n rheolaidd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, gan ddangos gwelliant mewn lles, ymgysylltiad a chynnydd academaidd.

### Crynodeb o Effaith

| Gweithgarwch | Effaith ar Ddisgyblion |
|---|---|
| Monitro cynnydd trwy brosesau hunanwerthuso a chyfarfodydd cynnydd disgyblion | Mae'r ysgol wedi datblygu dealltwriaeth fanwl o anghenion disgyblion unigol. Defnyddir data yn effeithiol i addasu darpariaeth, gan arwain at ymyriadau mwy targedig a gwell cynnydd dros amser. |
| Rhaglenni ELSA a Lego Therapy | Mae disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth wedi dangos gwelliant amlwg yn eu lles emosiynol, eu gallu i reoli emosiynau ac i weithio'n gydweithredol ag eraill. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu parodrwydd i ddysgu a'u hymgysylltiad mewn gwersi. |
| Cefnogaeth ychwanegol drwy staff (ymyriadau a chefnogaeth unigol) | Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd priodol neu well yn erbyn eu targedau unigol, yn enwedig mewn llythrennedd. Mae disgyblion yn dangos mwy o hyder wrth ddarllen ac yn cymryd rhan yn fwy gweithredol yn eu dysgu. |
| Cefnogi mynediad at brofiadau addysgol a gweithgareddau cyfoethog | Mae pob disgybl wedi gallu cymryd rhan lawn mewn profiadau'r cwricwlwm, gan wella eu datblygiad |

| | |
|---|---|
| | cymdeithasol a'u hunanhyder. Nid oes tystiolaeth bod costau wedi bod yn rhwystr i gyfranogiad. |
| Cydweithio gyda theuluoedd a gwasanaethau allanol | Mae perthnasoedd cryfach gyda theuluoedd wedi arwain at well presenoldeb ac ymgysylltiad. Mae disgyblion yn elwa o ddull mwy cydgysylltiedig o gefnogaeth. |

## Effaith Gyffredinol

- Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i'r GDD yn dda ac, mewn llawer o achosion, yn gyson â neu'n well na'u cyfoedion
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, yn enwedig mewn darllen
- Mae gwelliant amlwg yn lles emosiynol a chymdeithasol disgyblion, gan arwain at well ymddygiad ac ymgysylltiad mewn dysgu
- Mae'r ysgol wedi lleihau rhwystrau i ddysgu drwy sicrhau mynediad cyfartal at holl brofiadau'r ysgol

## Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| Speech link | Speech link multimedia |
| Widget | Widget on line |
| Forest schools | NPT forest schools |